

LLAWLYFR MODWL

Cod y Modwl: ECAD6013C

Teitl y modwl: - *Astudiaethau Craidd:*

Y dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?

**BA Addysg Gynradd
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 6

YR ATHROFA

2023-2024

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

Nanna Ryder (**arweinydd modwl**)

E-bost: n.ryder@uwtsd.ac.uk

Ffôn: 01267 676795

Laura Emanuel (**dirprwy arweinydd modwl**)

E-bost: laura.emanuel@uwtsd.ac.uk

Tîm addysgu'r modwl

Tom Cox

Meryl Bowen

Menna Davies

Gail Parker

2. Ein disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi chi. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynd i bob sesiwn
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiadau terfynol
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn.

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrywyr.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- addysgu sgiliau dadansoddi a gwerthuso beirniadol i ddarpar athrawon er mwyn iddynt ddeall y gwahanol safbwyntiau sydd wrth wraidd damcaniaethau datblygiad plant a mynd i'r afael yn weithredol â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar les a datblygiad
- ennyn diddordeb myfyrwyr yn y model o arfer trawsffurfiol sy'n rhoi cychwyn ar newid mewn lleoliad addysgol yn seiliedig ar dystiolaeth o adfyfrio a gwerthuso beirniadol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu dangos y gallu i:

- ddangos dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n effeithio ar les, dysgu a datblygiad plant o 0-19 oed a chymhwyso hyn i arfer proffesiynol
- cyflwyno safbwynt personol, beirniadol ar rôl yr athro proffesiynol mewn perthynas â bodloni anghenion ystod amrywiol o blant a phobl ifanc; yn cynnwys herio tybiaethau, credoau sy'n arwain at ragfarn a stereoteipio
- adfyfrio a gwerthuso'n feirniadol ystod o agweddau gwahanol ar gyfer bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr mewn ystod o leoliadau, a chyfiawnhau dewisiadau a wneir mewn arfer personol.

PERTHYNAS Â PHEDWAR DIBEN CWRICWLWM I GYMRU 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr i sicrhau cynnydd disgyblion.
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Cymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd dysgu creadigol, hyrwyddo ymreolaeth a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i addysgu a dysgu.
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol wrth ddeall a pharchu anghenion a hawliau disgyblion fel aelodau o gymdeithasau amrywiol, a herio tybiaethau a chredoau sy'n arwain at stereoteipio.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Dangos dealltwriaeth ddofn o theorïau ac ymchwil sy'n effeithio ar hyrwyddo llesiant meddwl ac emosiynol disgyblion trwy ddatblygu hyder, cyfnerthed ac empathi yn eu hymarfer.

PERTHYNAS Â'R SAFONAU PROFFESIYNOL ADDYSGU & ARWEINYDDIAETH SAC

Addysgeg	Addysgeg - Mireinio Addysgu	
	Asesu	Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.
	Gwahaniaethu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.
	Cofnodi ac adrodd	Mae'r athro'n cynhyrchu cofnodion ac adroddiadau priodol, amserol a chywir ac mae'n rhoi adborth i helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r dysgu, a gwella'r profiad dysgu.
	Cynnwysartneriaid mewn dysgu	Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.
	Addysgeg - Hyrwyddo Dysgu	
	Pedwar diben i ddysgwyr	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr.
	Profiadau dysgu cyfunol	Mae'r athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgu creadigol er budd pob dysgwr.
	Dilyniant mewn dysgu	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o sut mae dysgu'n datblygu fesul tipyn, gam wrth gam gan adeiladu ar brofiadau blaenorol a'r hyn a ddysgwyd o'r blaen, ac mae'n cynllunio ar gyfer cynnydd yn seiliedig ar hyn.
	Addysgeg - Dylanwadu ar Ddysgwyr	
	Herio a disgwyliadau	Mae'r athro'n gosod heriau a disgwyliadau ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr, gan eu hannog i gyflawni.
	Gwranddo ar ddysgwyr	Mae'r athro'n arddangos parodrwydd i geisio a gwranddo ar farn dysgwyr, ac ystyried y farn honno, er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain.
	Dysgwyr yn arwain dysgu	Wrth gynllunio a chyflwyno, mae'r athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i adfyfrio ar eu dysgu eu hunain.
	Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr	Mae'r athro'n hyrwyddo hunanysgogi a hunangyfeirio ymhlith dysgwyr, ac yn eu cefnogi i weithredu hynny wrth ddysgu.
	Deilliannau dysgu a lles	Mae'r athro'n codi ymwybyddiaeth o sut mae profiadau dysgu a deilliannau perfformiad o safon uchel yn arwain at well dysgu a gwell synnwyr o les.
Cydwethredu	Cydwethredu	
	Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol	Mae gweithio'n drefnus ac yn adeiladol gydag ystod o gydweithwyr i wella profiad dysgwyr yn nodwedd gyson o waith yr athro. Mae'r gwaith o adfyfrio ar ddatblygu arbenigedd wedi'i strwythuro'n broses bersonol neu gydweithredol, fel y bo'n briodol.

Dysgu proffesiynol	Dysgu Proffesiynol	
	Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.
	Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol	Mae'r athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion.
Arloesi	Arloesi	
	Datblygu technegau newydd	Mae ymchwil ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol yn cael effaith gadarnhaol ar addysgeg. Mae'r athro'n gallu arddangos sut y mae'n defnyddio dirnadaeth broffesiynol a dadansoddiad beirniadol i lunio a datblygu arferion.
Arweinyddiaeth	Arweinyddiaeth	
	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac yn eu deall.

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Yn y modwl hwn bydd darpar athrawon yn gwneud y canlynol:

- gwerthuso'n feirniadol ymchwil a theorïau allweddol ac ymchwil sy'n sail i ddatblygiad holistaidd plant a phobl ifanc, ynghylch sicrhau cynnydd disgyblion - gan gynnwys dealltwriaeth feirniadol o lythrennedd corfforol a materion cyfoes eraill
- gwerthuso a defnyddio damcaniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil ar gyfer ymarfer personol, gan gyfiawnhau'r dewisiadau addysgegol a wneir a rhannu canfyddiadau mewn lleoliad proffesiynol
- cael dealltwriaeth ddofn o sut mae cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol (gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol, diogelu ac amddiffyn plant, llesiant, hawliau a lleisiau plant) yn rhyngweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
- meddu ar ddealltwriaeth ddofn o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac anghenion eraill sy'n effeithio ar ddysgu a datblygiad, a nodi mathau o addysgeg sy'n lleihau effeithiau negyddol
- gwerthuso'n feirniadol strategaethau a dulliau i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y ffordd orau bosibl, gan gynnwys herio barn a thybiaethau am y

5. Cynnwys y Modwl:

Yn ystod y modwl hwn, byddwch yn cael y cyfle i ddatblygu ymagweddau ymchwil Yr Athrofa a ddylanwadwyd gan waith Orchard a Winch (2015). Bydd yr ymagweddau hyn yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o addysgeg ac ymarfer yn ogystal â'r gallu i werthuso ymchwil empirig mewn modd beirniadol.

Anianawd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau
Bod yn sgeptigol	Deall tystiolaeth empirig mewn maes lle mae anghytundeb: Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
Bod yn foesegol	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall ymagweddu mewn ymchwil; - Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
Bod yn ymchwilydd medrus	Deall egwyddorion ymchwil gwyddor gymdeithasol, a gwybod beth yw'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmataidd. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol; - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Bod yn sgeptigol eich agwedd at y 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gymorth a allai fodoli ai peidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu: - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: - Bod yn glir am yr hyn a fwriadwyd a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; - Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; - Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau eraill.

DULLIAU CYFLWYNO

Sesiynau wyneb yn wyneb – sesiynau byw ar y campws yn cael eu harwain gan diwtoriaid; tasgau cyfeiriedig, a thrafodaethau grŵp yn cael eu harwain gan diwtor neu gyfoedion.	
Tasgau Cyfeiriedig – tasgau a osodwyd yn ystod neu ar ddiwedd sesiynau y bydd disgwyl ichi eu cyflawni'n annibynnol. Bydd y rhain yn cefnogi'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc ac yn cael eu hasesu'n ffurfiannol mewn sesiynau dilynol.	

TROSOLWG O'R SESIYNAU

D.S.

- Gall trefn y sesiynau hyn a'r dull neu'r darlithydd sydd yn cyflwyno newid yn ôl yr amgylchiadau.
- Fe'ch hysbysir o unrhyw newidiadau yn yr amserlen e.e., amser, ystafell ac ati, ymlaen llaw trwy Moodle.
- Dilynwch eich amserlen bersonol ar Celcat ar gyfer ystafelloedd os gwelwch yn dda.

Sesiwn	Cynnwys	Tiwtor	Dull
1. 02/10/23 9.00 -11.00	Cyflwyniad i'r Modwl / Datblygiad plant 0-19 oed: • Archwilio'r prif themau a gyflwynir yn ystod y modwl a'r modd mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad y dysgwr • Adolygu natur holistaidd dysgu • Trosolwg o'r aseiniad.	NR	
2. 02/10/23 11.00 – 1.00	Pwy oedd pwy? : Ailymweld â theorïau dysgu allweddol ac amrywiol ddulliau: • Lluniadaeth, Ymddygiadaeth a'r dull dyneiddiol • Dulliau hanesyddol a chyfoes • Theorïau ar waith • Cyflwyno Tasg Gyfeiriol 1 •	MD	
Tasg Gyfeiriol 1	Ymchwilio i waith: • Yr Athro yr Arglwydd Robert Winston • Yr Athro Tanya Byron • Yr Athro Sarah Jane Blakemore	MD	

3. 03/10/23 9.00 – 11.00	Trafodaeth Grŵp o Dasg Gyfeiriol 1 Pedwar Diben Cwricwlwm i Gymru - Archwilio beth a olygir gan gwricwlwm sy'n cael ei arwain gan ddibenion a chynnydd fel proses - Cysylltu hunan barch, hunan effeithiolrwydd a hunaniaeth athrawon â hunan barch, hunan effeithiolrwydd a hunaniaeth disgyblion.	NR	
4. 03/10/23 11.00 – 1.00	Dogfennau ADY a rhwymedigaethau statudol - Datblygiadau diweddar o'r Cod ADY (2021) - Rôl athrawon dosbarth a'r CADY - Gwahanol lefelau o ddarpariaeth – yr heriau. Cyflwyno Tasg Gyfeiriol 2	NR	
Tasg Gyfeiriol 2	Cwblhau taflen Adnabod yr Acronymau.	NR	
5. 05/10/23 9.00 – 11.00	Llesiant, hawliau a lles y plentyn. - Cyflwyniad i ddeunyddiau hyfforddiant Comisiynydd Plant Cymru - Cysylltiadau â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.	MB	
6. 05/10/23 11.00 – 1.00	Rhannu atebion Tasg Gyfeiriol 2 Rhwystrau i ddatblygiad iaith - Archwilio rhai o'r rhwystrau corfforol a chymdeithasol i ddatblygiad iaith - Trafodaeth feirniadol o rôl athrawon wrth leihau'r rhwystrau hyn a chefnogi dysgu a datblygiad pellach.	MD	
7. 10/10/23 (gyda3B &3C) 9.00 – 11.00	Cefnogi dysgwyr sydd wedi profi trawma - Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ACEs a'r effaith ar les, cynnydd a datblygiad - Archwilio strategaethau effeithiol i gefnogi dysgwyr sydd wedi profi trawma	NR + siaradwr gwadd	
8. 10/10/23 11.00 – 1.00	Adolygu'r modwl a gweithdy aseiniad - Bod yn ymarferydd adfyfyriol - Trafodaeth feirniadol o themâu'r modwl - Rhannu enghreifftiau o 'WAGOLL' - Sesiwn C&A ar gyfer yr aseiniad.	NR	

9. 12/10/23 2.00 – 4.00	Archwilio trosglwyddiadau addysgol - Ystyried yr ystod o drosglwyddiadau llorweddol a fertigol y daw disgyblion ar eu traws yn ystod eu taith drwy'r ysgol gynradd a'u heffaith ar ddysgu a chyrhaeddiad - Adfyfyrio beirniadol ar sut i gefnogi yn ystod pwyntiau trosglwyddo allweddol.	MD	
10. 17/10/23 9.00 – 11.00	Dull holistaidd o addysgu a dysgu: - Datblygu dull holistaidd – Cynllun Addysg Unigol / Proffiliau un dudalen - Dull dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y teulu - Goblygiadau moesegol sicrhau dull holistaidd Cyflwyno Tasg Gyfeiriol 3	MD	
Tasg Gyfeiriol 3	Creu map meddwl o heriau modern o ran ymgysylltu â theuluoedd.	MD	
11. 17/10/23 11.00 – 1.00	Rhannu enghreifftiau o Tasg Gyfeiriol 3 ADY – Tlodi a phlentyndod - Archwilio'r amrywiol fathau o 'dlodi' - Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r modd mae tlodi'n effeithio ar ddysgu a chynnydd	MD	
12. 24/10/23 11.00 – 1.00	Llythrennedd Emosiynol ac Iechyd Meddwl - Archwilio gwahanol fodolau o les o safbwynt seicoleg gadarnhaol e.e. model PERMA Seligman - Ystyried sut y gellid datblygu agwedd gadarnhaol tuag at les - Cysylltu gyda'r MDaPh Iechyd a Lles	MD	
13. 24/10/23 2.00 - 4.00	Ymarfer cynhwysol yn y dosbarth - Adolygu beth yn union a olygir wrth 'gynhwysiant' - Sut mae sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd teg a chyfiawn yn yr ysgol - Adfyfyrio'n feirniadol ar enghreifftiau o arfer dda	NR	

14. 26/10/23 9.00 – 11.00 (gyda 3B & 3C)	Cydweithio gydag eraill 1 - Dull ysgol gyfan o gefnogi trosglwyddiadau allweddol – manteision a heriau gwahanol ddulliau - Ystyriaeth o faterion megis lles, ADY, ACEs ac anghenion eraill - Rôl rhanddeiliaid allweddol yn y broses trosglwyddo gan gynnwys cydweithio aml-asiantaethol	NR + siaradwyr gwadd	
Tasg Gyfeiriol 4	Wrth wrando ar y siaradwyr gwadd ar y panel, nodwch 3-4 pwynt allweddol o ddiddordeb ynghylch arfer effeithiol i'w trafod yn Sesiwn 15.	NR	
15. 26/10/23 11.00 – 1.00	Trafodaeth grŵp o Tasg Gyfeiriol 4 Cydweithio gydag eraill 2 - Archwilio partneriaethau aml-asiantaethol - Y tîm o amgylch y plentyn. - Archwilio'r cysyniad o addysgeg perthynol Sesiwn C&A ar gyfer yr aseiniad.	NR	

6. Tasgau a chanllawiau asesu

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD6013C	Astudiaethau craidd 1:- Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?	TEITL: Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyriwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol). Dylai'r ymateb gynnwys: 1.Darn adfyfyriol ysgrifenedig (3,500 o eiriau) 2. Proffil un tudalen o'r disgybl a chynllun cefnogi sy'n amlinellu'r ddarpariaeth, rôl rhanddeiliaid allweddol yn y broses trosglwyddo, ac unrhyw ddulliau gwerthuso. (1,500 o eiriau) Dyddiad cyflwyno: 06/11/23 (23.59 p.m.)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu manylach.

7. Rhestr ddarllen

RHESTR DDARLLEN

Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig
Hanfodol	Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, (2016) <i>Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn: canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf (llyw.cymru)	☒
Hanfodol	Alderson, P. (2008) <i>Young children's rights [electronic resource] : exploring beliefs, principles and practice</i> (2nd ed.) London:Jessica Kingsley Publishers.	☒
Hanfodol	Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds) (2012) <i>Social Justice re-examined: dilemmas and solutions for the classroom teacher</i> . London: IOE Press.	☒
Hanfodol	Black-Hawkins, K., Florian, L. & Rouse, M., (2017) <i>Achievement and Inclusion in Schools</i> (2 nd ed.), New York: Routledge.	☐
Hanfodol	Collins, J. & Foley, P. (eds.) (2008) <i>Promoting children's wellbeing : policy and practice</i> . Bristol :Policy Press.	☐
Hanfodol	Doherty, J. & Hughes, M. (eds.) (2014) <i>Child development : theory and practice 0-11</i> (2nd ed.) Harlow:Pearson.	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cymru (2020) <i>Canllawiau Cwricwlwm i Gymru</i> . [Ar-lein]. Ar gael o: canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf (gov.wales)	☒
Hanfodol	McAuley, C. & Rose, W. (eds.) (2010) <i>Child Well-being – Understanding Children's Lives</i> .	☒
Hanfodol	Smidt, S. (2013) <i>The developing child in the 21st century [electronic resource] : a global perspective on child development</i> (2nd ed.). Abingdon: Routledge.	☒
Pellach	Children and Society (Journal)	☒
Pellach	Child Development (Journal)	☒
Pellach	Choudry, S. (2021) <i>Equitable Education: What everyone working in education should know about closing the attainment gap for all pupils</i> . St. Albans: Critical Publishing.	☐
Pellach	Cottrell, S. (2019) <i>The study skills handbook</i> (5 th ed.) London:Macmillan Education UK.	☐
Pellach	Ferguson, L. (2013) Not merely rights for children but children's rights: The theory gap and the assumption of the importance of children's rights. <i>The International Journal of Children's Rights</i> . [Online] 21 (2), 177–208. Available from: doi:10.1163/15718182-55680015.	☒

Pellach	Howard, C., Burton, M., Levermore, D., & Barrell, R. (2017) <i>Children's Mental Health and Emotional Well-being in Primary Schools</i> . London: Learning Matters.	☐
Pellach	Jindal-Snape, D. (ed.) (2010) <i>Educational Transitions-Moving Stories from Around the World</i> , Oxon: Routledge.	☒
Pellach	Kirylo, J. (2016) <i>Teaching with purpose : an inquiry into the who, why and how we teach</i> . Maryland : Rowman & Littlefield.	☐
Pellach	Packer, Rh. (2021) <i>All Change! Best Practice for Educational Transitions</i> . St. Albans:Critical Publishing.	☐
Pellach	Peer, G. & Reid, L. (2021) <i>Special Educational Needs: a guide for inclusive practice</i> (3 rd ed.). London: Sage Publications.	☐
Pellach	Shearer, C. <i>et al</i> (2018) How Is Physical Literacy Defined? A Contemporary Update in <i>Journal of Teaching in Physical Education</i> , volume 37, p 237-246.	☒
Pellach	Symonds, J. (2015) <i>Understanding school transition : what happens to children and how to help them</i> . Abingdon: Routledge.	☐
Pellach	Welsh Government (2021) <i>The ALN Code for Wales 2021</i> . [Online].Available from: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/210326-the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf .	☒